## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar Gam 2 Heol Wellfield

Anfonwyd llythyron unigol at 327 eiddo ar Heol Wellfield a Heol Pen-y-lan 'isaf' a Wellfield Place a chafodd gwybodaeth ei rhannu'n gyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cafwyd 74 o ymatebion unigol gan breswylwyr a pherchenogion busnes. O'r rhain roedd 74% o blaid ac roedd 26% yn erbyn y newidiadau.

Y prif resymau dros anghytuno â'r cynigion oedd;

- bydd bysus bellach yn defnyddio Heol Pen-y-Lan, bydd hyn yn cynyddu llif y traffig, y sŵn a'r llygredd ar Heol Pen-y-Lan; bydd y system unffordd yn cael effaith o ran traffig ar ffyrdd cyfagos.
- ni chynigir unrhyw groesfannau neu fesurau arafu traffig ar gyfer Heol Pen-y-Lan
- mae'n anodd gadael Heol Pen-y-Lan gan droi i Heol Albany, hefyd mae'n anodd i gerddwyr groesi'r ffordd yma
- effaith ar barcio i breswylwyr, annheg i breswylwyr ar Heol Pen-y-Lan, gormod o aros cyfyngedig sy'n troi Heol Pen-y-Lan yn faes parcio
- nid yw'r palmant ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield yn cael ei ledu; mae'r byrddau a'r cadeiriau ar Heol Wellfield wedi cymryd lle ar y palmant - felly nid yw hyn yn helpu gyda'r angen i gadw pellter cymdeithasol
- byddai cael gwared â'r safle bws ar Heol Wellfield yn anghyfleus
- effaith negyddol ar fusnesau lleol
- ni fydd y lôn feicio'n cysylltu ag unrhyw beth
- byddai'r cynllun yn lleihau pris eiddo preswyl

Y prif resymau dros gytuno â'r cynigion oedd;

- Creu amgylchedd llawer mwy dymunol a diogel i gerddwyr a beicwyr yn yr ardal; byddai lôn feicio yn creu llwybr diogel yn y dyfodol i ganol y ddinas.
- Croesewir y mannau parcio ychwanegol i ddeiliaid Bathodyn Glas
- O blaid y system unffordd ar Heol Wellfield; ar hyn o bryd nid yw'n ddiogel i giniawyr eistedd yn ddiogel ar y palmant, gan fod bysus a cheir yn agos iawn at y byrddau.
- Hoffwn i'r stryd lawn fod yn ardal i gerddwyr yn unig, ond mae traffig unffordd yn bendant yn gam yn y cyfeiriad cywir.
- Mae Heol Wellfield wir wedi dod yn galon y gymuned, bydd ei wneud yn fwy hardd a chael gwared â cheir cymaint â phosibl yn helpu'r busnesau yno i ffynnu
- Mae'r gwaith o ledu'r palmentydd wedi'i groesawu'n fawr ac wedi creu awyrgylch da yn yr ardal. Bydd y cynllun yn cefnogi'r busnesau lleol ac yn creu teimlad pentrefol yn yr ardal.
- Mae'r gwaith o blannu coed wedi'i groesawu

**<u>Argymhelliad</u>**
**Oherwydd yr uchod, cynigir bwrw ymlaen gyda chynigion Cam 2 a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar ddiwedd mis Tachwedd 2020.**

Mae'r pryderon a'r sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion wedi'u crynhoi mewn llythrennau italig isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Problem 1: bysus ar Heol Pen-y-Lan 'isaf'

*"bydd bysus bellach yn defnyddio Heol Pen-y-Lan, bydd hyn yn cynyddu swm y traffig, y sŵn a'r llygredd ar Heol Pen-y-Lan; bydd y ffordd un ffordd yn cael effaith o ran traffig ar ffyrdd cyfagos.*

Ymateb i Broblem 1: Bydd creu safle bws ar Heol Pen-y-Lan 'isaf' o fudd i breswylwyr Heol Pen-y-Lan 'isaf', gan y bydd modd iddynt gael mynediad mwy cyfleus at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

Ar hyn o bryd mae gwasanaethau bysus yn gweithredu'n llwyddiannus mewn llawer o strydoedd preswyl yn y Ddinas. Bydd creu safle bws ar Heol Pen-y-Lan yn cynnig safle mwy cyfleus i deithwyr bysus gyrraedd y siopau lleol a defnyddio'r gwasanaethau lleol ar Heol Wellfield.

Mae arolygon traffig wedi'u cynnal wrth ddatblygu'r project a chânt eu gwneud eto ar ôl gweithredu'r mesurau dros dro. Defnyddir y wybodaeth hon yn ogystal â'r arsylwadau safle i asesu effaith y system unffordd. Os bernir bod angen mesurau arafu traffig ychwanegol, cânt eu cyflwyno ar Heol Pen-y-Lan 'isaf' i sicrhau bod cerbydau'n parhau i deithio ar gyflymderau isel priodol.

Problem 2: Heol Pen-y-lan

*"ni chynigir unrhyw groesfannau neu fesurau arafu traffig ar gyfer Heol Pen-y-Lan"*

Ymateb i Broblem 2: Caiff arolygon traffig eu cynnal ar ôl gweithredu'r project a chaiff mesurau arafu traffig a chroesfannau i gerddwyr eu gosod ar Heol Pen-y-Lan 'isaf' os bernir bod angen gwneud hynny.

Problem 3: Cyffordd Heol Albany â Heol Pen-y-Lan

*"mae'n anodd gadael Heol Pen-y-Lan gan droi i Heol Albany, hefyd mae'n anodd i gerddwyr groesi'r ffordd yma"*

Ymateb i Broblem 3: Mae arolygon ac arsylwadau traffig wedi'u cynnal wrth ddatblygu'r cynllun na thynnon nhw sylw at broblem fawr yn y lleoliad hwn. Byddwn yn parhau i adolygu'r lleoliad hwn pan gaiff y mesurau dros dro eu cyflwyno i asesu a fydd angen newid y gyffordd.

Cerddwyr sydd â'r hawl dramwy wrth gyffordd ffordd ymyl. Ni chaniateir i gerbydau droi i Heol Pen-y-Lan 'isaf' o Heol Albany mwyach a fydd yn ei gwneud yn haws i gerddwyr groesi'r ffordd, ond byddwn yn ailasesu'r lleoliad hwn ar ôl cyflwyno'r system unffordd dros dro i asesu a fydd angen mesurau ychwanegol.

Problem 4: Parcio i breswylwyr

*"effaith ar barcio i breswylwyr",*

"rydych yn bwriadu cael gwared â'r rhan fwyaf o'r mannau parcio i breswylwyr ar y stryd. Mae angen o leiaf yr un faint o fannau parcio i breswylwyr ag sydd ar gael ar hyn o bryd"

*"gormod o aros cyfyngedig sy'n troi Heol Pen-y-Lan yn faes parcio"*

Ymateb i Broblem 4: Ar hyn o bryd mae dwy ardal barcio i breswylwyr â thrwydded ar wahân yn Heol Pen-y-Lan 'isaf' sy'n cynnig tua 14 man. Yn rhan o'r cynigion, yn lle'r ardaloedd hyn, bydd un ardal barcio i breswylwyr â 13 man. Mannau parcio a rennir fydd y mannau aros cyfyngedig ar Heol Pen-y-Lan 'isaf', felly bydd preswylwyr â thrwydded ddilys yn gallu parcio yn y mannau aros cyfyngedig ar Heol Pen-y-Lan 'isaf'.

Problem 5: Palmant ar Heol Wellfield

*"nid yw'r palmant ar Heol Wellfield yn cael ei ledu"*

*"mae'r byrddau a'r cadeiriau ar Heol Wellfield wedi cymryd lle ar y palmant - felly nid yw hyn yn helpu gyda'r angen i gadw pellter cymdeithasol"*

Ymateb i Broblem 5: Yn gyffredinol, mae lle cyfyngedig ar gael ar y briffordd ar gyfer y project hwn, felly nod y cynigion yw cydbwyso'r holl ofynion sy'n cystadlu. Mae'r droedffordd gyfredol ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield yn amrywio o ran ei led rhwng 2.4m a 2.6m; bydd lle ar gael yn agos at y coed o hyd i gerddwyr gamu oddi ar y droedffordd i alluogi cerddwyr eraill i'w pasio ac i gadw pellter cymdeithasol.

Pan gaiff gwaith cam 2 ei gwblhau, bydd busnesau'n gallu gwneud cais am drwydded byrddau a chadeiriau. Wedyn bydd swyddogion yn gallu cynnal asesiadau unigol gyda phob busnes i gytuno ar yr ardaloedd y gellir eu defnyddio ar gyfer byrddau a chadeiriau, bydd hyn yn sicrhau y cynhelir lle digonol ar y droedffordd ar gyfer cerddwyr.

Problem 6: safle bws

*"Mae'n ymddangos na fydd safle bws ar Heol Wellfield. Mae'n debyg mai'r ffaith y bydd y ffordd newydd mor gul na fydd lle i safle yw'r rheswm am hyn.*

*"Bydd cael gwared â safleoedd bysus ar Heol Wellfield yn ei gwneud yn anodd i'r rheiny sydd â phroblemau symudedd sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r safleoedd a'r siopau ar Heol Wellfield".*

Ymateb i Broblem 6: Gwnaethom ni asesu lleoliadau safleoedd bysus wrth ddylunio'r cynigion. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau o ran lled, nid yw'n bosibl cadw'r safle bws ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield tra'n cynnig mynediad diogel ar draws y lôn feicio newydd. Bydd safle bws newydd ar ochr ogleddol Heol Albany ychydig cyn cyffordd Heol Wellfield. Cedwir y safleoedd bysus ar Heol Pen-y-Lan i'r gogledd o Marlborough Road.

Problem 7: busnesau lleol

*"effaith negyddol ar fusnesau lleol"*

Ymateb i Broblem 7: Wrth ddatblygu a gwerthuso'r cynllun peilot ar Heol Wellfield, rydym wedi cynnal trafodaethau â'r gymuned busnesu leol. Ystyrir y bydd cynigion Cam 2 yn cynnig datrysiad cyfaddawdu, gyda rhai mannau parcio'n cael eu hadfer ar Heol Wellfield, a bydd y cynllun yn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol, cynnig gwelliannau i gerddwyr a beicwyr a lleihau cyflymderau traffig.

Problem 8: ni fydd y lôn feicio'n cysylltu ag unrhyw beth

*"Syniad gwych arall ond pa mor ymarferol a fydd pan fydd yr holl ffyrdd cyfagos heb lonydd beicio?*

*"Er y croesewir y darn hwn o lôn feicio wrth gwrs, ar ei ben ei hun, mae braidd yn dda i ddim, yn anffodus."*

Ymateb i Broblem 8: Mae Cyngor Caerdydd yn datblygu cynigion ar gyfer Beicffyrdd i gynorthwyo a hyrwyddo beicio ar gyfer pobl o bob oedran a gallu. Bydd y llwybrau parhaol arfaethedig yn cysylltu cymunedau â chyrchfannau mawr ledled y ddinas.

Hefyd, rydym wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer beicffyrdd sbonc dros dro, bydd un o'r rhain yn cysylltu'r feicffordd arfaethedig ar Heol Wellfield â Heol Albany ac wedyn â chanol y ddinas.

Ceir mwy o wybodaeth ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth trwy glicio'r ddolen "Beicffyrdd"

Problem 9: Mynegodd preswylydd bryderon y byddai'r cynllun yn lleihau pris eiddo preswyl

*"Rydym yn gwrthwynebu'r syniad o system unffordd ar gyfer y stryd hon gan ei bod yn cyfyngu ac yn lleihau prisiau eiddo ar y stryd hon yn enfawr.. rydym yn gallu cyrraedd Heol Albany a Heol Wellfield yn hawdd.*

Ymateb i Broblem 9: Efallai na fydd cyflwyno system unffordd ar Heol Pen-y-Lan 'isaf' mor gyfleus i rai preswylwyr sy'n cyrraedd y ffordd o Heol Albany, ond bydd modd cyrraedd y ffordd o gyfeiriad Heol Wellfield o hyd.

Ni allwn wneud sylw ar brisiau eiddo, ond efallai y bydd preswylwyr am gael cyngor gan syrfëwr tir eiddo i gadarnhau a yw hyn yn wir, ond dylid nodi mai mesurau dros dro yw'r rhain.

Problem 10: Ongl y mannau parcio onglog

*"Er mwyn parcio ceir yn y mannau parcio onglog, mae'n ymddangos y bydd angen i geir yrru'n ôl i mewn i'r mannau? Os felly, oni fyddai hynny'n cael tagfeydd?"*

*"Mae'n ymddangos bod y mannau parcio ar Heol Pen-y-Lan wedi'u hongli tuag at y cyfeiriad anghywir"*

Ymateb i Broblem 10: Os bydd gyrwyr yn gyrru i mewn i'r mannau onglog bydd angen iddynt yrru'n ôl ar y lôn gerbydau. Ystyrir bod hyn yn anniogel gan y gallai golwg y gyrrwr ar draffig sy'n teithio tuag ato gael ei rwystro gan gerbydau cyfagos. Ystyrir ei bod yn fwy diogel i yrwyr yrru'n ôl i mewn i'r mannau parcio onglog; gan y gallant weld y traffig sydd y tu ôl iddynt ar y lôn gerbydau cyn iddynt yrru'n ôl ac y gallant farnu pan fydd yn ddiogel gyrru'n ôl, bydd modd iddynt weld traffig sy'n teithio tuag atynt yn dda wrth adael y man.

Problem 11: Lle ychwanegol ar y palmant

*"Sut y penderfynir pa fusnesau a gaiff fanteisio ar y lle ychwanegol ar y palmant a sut"*

*"fydd y busnesau bwyd/diod ar ochr Ddwyreiniol y stryd sydd am gadw seddi yn yr awyr agored yn cael gwneud felly?"*

Ymateb i Broblem 11: Pan gaiff gwaith cam 2 ei gwblhau, bydd busnesau'n gallu gwneud cais am drwydded byrddau a chadeiriau. Wedyn bydd swyddogion yn gallu cynnal asesiadau unigol gyda phob busnes i gytuno ar yr ardaloedd a ellir eu defnyddio ar gyfer byrddau a chadeiriau.

Ni fydd y cynigion cyfredol yn cynnwys lle i fyrddau a chadeiriau ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield. Fodd bynnag os bydd galw am y cyfleuster hwn yn y dyfodol, byddwn yn adolygu'r cynigion eto, ond byddai unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn arwain at golli mannau parcio.

Problem 12: Llwytho ar Heol Wellfield

*"Yn gwrthwynebu'r ffaith bod y man llwytho'n cael ei waredu ar ochr orllewinol Heol Wellfield"*

Ymateb i Broblem 12: Cedwir y man llwytho ar ochr ddwyreiniol Heol Wellfield. Wedyn bydd modd i weithwyr danfoniadau groesi Heol Wellfield trwy ddefnyddio'r groesfan sebra gyfagos.

Problem 13: Symudiadau traffig

*"Nid yw'n glir a fydd modd i draffig droi o Bangor Street (sydd eisoes yn ffordd unffordd) i Heol Wellfield o hyd"*

*"Nid yw'r cynlluniau'n glir o ran a fydd y system unffordd newydd yn caniatáu troi i'r dde i Heol Pen-y-Lan tra'n teithio i'r gogledd ar Heol Wellfield,"*

Ymateb i Broblem 13: Gallwn gadarnhau y bydd y cyfyngiad "troi i'r chwith yn unig" o Bangor Street i Heol Wellfield yn parhau ar waith. Bydd yn bosibl troi i'r dde i Heol Pen-y-Lan 'isaf' wrth deithio i'r gogledd ar Heol Wellfield.